# Heddwch


NEWYDDION GWEITHREDU

cylchgrawn CND Cymru

Gwanwyn 1995

25c


# Lansio Prosiect Plant Tsiernobyl yng Nghymru



Lansiwyd apêl dros ddioddefwyr trychineb Tsiernobyl ar 19eg Mawrth mewn cyfarfod lle y siaradodd Adi Roche, a sefydlodd Brosiect Iwerddon, y Cynghorydd Frank Evans o fforwm ardaloedd Di-Niwclear Cymru, a Luther Lodwig, Is-Gadeirydd Cyngor Sir Morgannwg Ganol. Cefnogwyd y cyfarfod gant y cant gan Gadeirydd Cyngor Sir Morgannwg Ganol. Dywedodd Adi wrthym am gyflwr y dioddefwyr, a chyflwynodd fideo, gan bwysleisio mai arnom ninnau i gyd y mae'r cyfrifoldeb, er lles y plant hyn a phlant y dyfodol, am sicrhau na all trychineb tebyg i ddamwain Tsiernobyl ddigwydd byth eto ar y blaned hon.

Diolch i Gôr Cochion Caerdydd, y Cynghorwyr Ray Davies a Sue Lent, a llawer eraill a ddaeth i'r cyfarfod, fe gynhelir cyfarfod arall i gasglu arian a chynyddu ymwybyddiaeth, ac i ddangos y fideo "Gwynt Du, Tir Gwyn-Etifeddiaeth Tsiernobyl", a wnaed gan Brosiect Iwerddon. Bydd hyn ar 31ain Mawrth am 7.15 pm yn Neuadd Sir De Morgannwg, Porthfa Iwerydd, Caerdydd. Galwch Ray Davies, Is-Gadeirydd CND Cymru (gweler y Rhestr Cysylltiadau), am fwy o wybodaeth.

Dywedir wrthym na all y fath ddamwain ddigwydd yma. Peidiwch â'u credu nhw! Mae'r potensial am Tsiernobyl arall yma ar ein trothwy – yn Sellafield, Yr Wylfa, Sizewell, Hinkley neu Faslane – mae'r lle mwyaf anghysbell yn y byd cystal â bod ar ein trothwy os ceir yno ffrwydrad neu ollyngiad ymbelydredd ar safle niwclear.

## Beth gallwch chithau ei wneud?

- Helpwch ni i sicrhau na ddigwyddith byth eto yn unman.
- Ymgyrchwch ar bob cyfle yn erbyn ynni ac arfau niwclear.
- Helpwch ni i fynd ag ambiwlans at bobl Bielarws ym mis Medil. Mae arnom angen ambiwlans diesel neu fan Ford Transit, £1,000 i fynd ag if 3,000 o filltiroedd i Fielarws, ac arian/llafur a darnau rhad ac am ddim er mwyn adfer y cerbyd i'r cyflwr gorau.
- Gwyliwch fideo Prosiect Plant Tsiernobyl, "Gwynt Du, Tir Gwyn", a dangoswch ef i unrhywun a fo'n fodlon ei weld (ar gael ar fenthyg gan Jill Stallard).
- Trafodwch fanylion y ddamwain gyda'ch ffrindiau. Rhaid i ninnau leisio anghenion rhieni a phlant Tsiernobyl – byddai'n well gan y diwydiant niwclear pe na chaech wybod y gwir am effeithiau ymbelydredd a gwir beryglon y dechnoleg niwclear.
- Os am gynnig cymorth, rhoddion neu syniadau, cysylltwch â Jill Stallard, "Nantgaredig", Cynghordy, LLANYMDDYFRI, Dyfed SA20 0LR, ffôn: (05505)260. Gwnewch eich sieciau'n daladwy i "Prosiect Plant Tsiernobyl".

## Prosiect Plant Tsiernobyl

Sefydlwyd y Prosiect yn wreiddiol gan CND Iwerddon i gynnig cymorth dyngarol i ardaloedd ym Mielarws yr effeithiodd Tsiernobyl arnynt, i fynd â phlant oddi yno i Iwerddon ar wyliau gorffwys, ac i gyhoeddi'r gwir am effeithiau ymbelydredd a pheryglon ynni niwclear er mwyn sicrhau na all y fath drychineb ddigwydd byth eto. Mae'r Prosiect wedi danfon gwerth dros £1,000,000 o gymorth eisoes o Iwerddon yn unig, ac mae 500 o blant o Fielarws wedi cael gwyliau yn Iwerddon. Triniwyd pedwar o blant difrifol wael o Fielarws mewn ysbyty yn ninas Corc ym mis Rhagfyr.

Mae'r Prosiect wedi gwahodd CND Cymru i gymryd rhan drwy fynd ag ambiwlans i ysbyty ym Minsc ym mis Medi, yng nghwmni 9 ambiwlans arall o Iwerddon a llond lori gymalog o foddion. Bydd ein hambiwlans ni'n mynd fel rhodd oddi wrth bobl Cymru, a chaiff ei yrru yno (3,000 o filltiroedd) gan ddau aelod o CND Cymru. Rydym wrthi hefyd yn casglu adnoddau meddygol.

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

# Tsiernobyl – y trychineb mud

Digwyddodd y ddamwain niwclear waethaf yn hanes y byd ar 26ain Ebrill 1995 yn atomfa Tsiernobyl yng ngogledd Wcrain ar ffiniau Gweriniaeth Bielarws. Dioddefodd trigolion Tsiernobyl ymbelydredd 90 gwaith yn drymach na'r hyn a ollyngodd bom Hiroshima. Ac fel y gwyddom yng Nghymru, derbyniodd a ddaear gyfan ddos o lwch ymbelydrol yn sgil y trychineb. Trigolion gweriniaeth Bielarws a ddioddefodd 70% o'r alldafliad niwclear.

## Celwyddau, Twyll a Chyfrwystra

Claddwyd y trychineb, fel bob amser yn achos ynni niwclear, dan gelwyddau, dichellion a chamwybodaeth. Ymddengys bod yr Asiantaeth Niwclear Ryngwladol wedi chwarae ei rhan yn y twyll, ac er gwaethaf Perestroica, llofnododd yr Arlywydd Gorbatsiof yntau gyfarwyddebion a gymhlethodd y gyfrinach yn fwy byth.

## Sefyllfa Econamaidd Bielarws

Oddi ar y ffrwydrad mae Bielarws, a fu unwaith yn stordy gwenith i'r Undeb Sofietaidd oll, yn methu gwerthu ei chynnyrch amaethyddol. Dim ond 1% o'i thir a erys heb ei lygru yn y wlad dlawd hon nad oes ganddi gyfoeth ond y tir ei hun.

Mae diffyg adnoddau'n effeithio'n arw ar sustem iechyd cyhoeddus Bielarws, ynghyd â gweddill seilwaith cymdeithasol y wlad. Nid yw'r offer a'r moddion mwyaf sylfaenol ar gael bellach hyd yn oed.

Fe drychir chwarennau theiroid plant â chanser y theiroid. Ni fyddant yn goroesi am fwy na 60 niwrnod yn sgil yr operasiwn, gan nad yw'r theirocsin sydd arnynt angen i gadw'n fyw ar gael, er bod cyflenwad 100 niwrnod ohono'n costio rhyw 50 ceiniog. Dyma un enghraifft yn unig o drallodion y cleifion, y meddygon a'r staff nyrsio ym Mielarws heddiw.

Ym 1991, pan oedd llai byth o wybodaith ar gael am sgil-effeithiau'r trychineb, hawliodd UNESCO werth £323 miliwn o gymorth ar gyfer yr ardaloedd a ddioddefasai fwyaf. £500,000 yn unig a dderbyniwyd.

## Llygriad Ymbelydrol

- Mae 2.2 filiwn o bobl ym Mielarws a mwy na 2 filiwn yn Wcrain yn byw mewn ardaloedd llygredig.
- Mae 100,000 o drigolion cylch Tsiernobyl yn byw mewn ardaloedd lle y mae lefel yr ymbelydredd yn fygwth i fywyd dynol.
- Dim ond 1% o diriogaeth Bielarws a erys heb ei llygru. Mae yno 2,000 o drefi a 2,000 o bentrefi na chaiff neb fyw ynddynt byth eto. Trowyd 200,000 o bobl yn alltudion yn eu gwlad eu hunain. Gorfodwyd brodorion cefn gwlad i fyw mewn trefi lle y teimlant nad oes ganddynt ran ystyrlon i'w chwarae.
- Nid oes bwyd heb ei lygru ar gael yn unman. Mae ail-lygriad yn broblem sy'n codi dro ar ôl tro yn y gadwyn fwyd a dŵr, drwy effeithiau cyson gwynt a glaw, tanau a'r lefel trwythiad tanddaearol.
- Mae mwy na 1,000 metr sgwar o dyllau yn yr "arch" goncrit a roddwyd am yr adweithydd a achosodd y ddamwain. Mae ymbelydredd yn dianc trwy'r tyllau hyn bob dydd, a rhagwelir y dydd pan syrthia'r "arch" gyfan yn deilchion.



■ *Baban mewn cartref plant ym Minsk a aned â chorff wedi ei anffurfio*

## Yr Effeithiau – Yr Afiechydon a'r Plant

- Plant a babanod yn y groth sydd hawsaf eu niweidio gan effeithiau ymbelydredd. Mae hyn yr un mor wir yn Sellafield a Hanford, Yr Wylfa, Hiroshima neu Nevada.
- Mae 90% o blant Bielarws wedi dioddef effreithiau alldafliad ymbelydrol. Gwelir yno anffurfiannau genedigaethol, clefydau'r galon, y chwarren theiroid a'r sustem fasgwlar, lewcemias a chanserau.
- Disgwylir y bydd 800,000 o blant a anwyd eisoes yn magu canser a lewcemia. Mae 170,000 o blant dan 7 oed yn debyg o ddatblygu canser y theiroid – a phlant yw'r rhain a oedd heb eu geni ym 1986!
- Nid oes iachâd i'w gael pan dyrr sustem imwnaidd y corff i lawr. Nid yw'r afiechydon mwyaf cyffredin yn ymateb bellach i driniaeth arferol.

Mae nifer y beichiogaethau wedi syrthio 50% oherwydd ofn pobl. Mae erthyliadau digymell a genedigaethau cynamserol yn digwydd yn fwyfwy aml.

- Mae iselder ysbryd seicolegol yn gyffredin ymhlith y rhai a gafodd eu hymbelydru neu eu symud o'u cartrefi, a thrwm yw baich y straen ar y rhai sy'n gofalu amdanynt. Bu cynnydd aruthrol mewn alcoholiaeth, camdriniaeth rywiol, problemau llencyndod a bwlian yn sgil y trychineb, ac mae digalondid ôl-drawmatig yn rhemp ymhlith y boblogaeth. Unigolion, teuluoedd a chymunedau cyfain di-rif sy'n dioddef effeithiau'r trychinebau hyn.
- Mae cronfa genau bodau dynol, planhigion a phob creadur byw wedi ei difrodi'n barhaol gan ddamwain Tsiernobyl, yn enwedig ym Mielarws, Wcrain a Rwsia. Mae ymbelydredd nid yn unig yn cynyddu'r nifer o bobl â namau genetig ymhlith y boblogaeth, ond yn ei gwneud yn anos iddynt oroesi. Fe deimlir effeithiau hyn ar lawer cenhedlaeth yn y dyfodol.

■ *Dengys llun y clawr blentyn mewn cartref plant yn Minsk a dderbyniodd niwed yn y groth. Mae'r ddau blentyn yn y ffotograffau yn farw erbyn hyn.*

# Y Cyfamod er Rhwystro Ymlediad Arfau Niwclear

## Rhagair

Mae'r cyfamod er Rhwystro Ymlediad Arfau Niwclear (CRhY) wedi bod mewn grym ers 25 mlynedd; 170 o wledydd sydd wedi ei arwyddo bellach. Bydd rhaid i'r arwyddwyr benderfynu eleni a ydynt am adnewyddu'r cyfamod "am gyfnod amhenodol" ynteu "am gyfnod neu gyfnodau penodol ychwanegol". Fe ddônt i'w penderfyniad mewn cynhadledd yn Efrog Newydd rhwng Ebrill 17 a Mai 12.

## Cefndir Hanesyddol

Cydnabuwyd yr angen am rwystro ymlediad arfau niwclear ar ddechrau'r oes niwclear – mor bell yn ôl â Thachwedd 1945 awgrymodd yr UDau, Prydain a Chanada y dylid sefydlu Comisiwn dan nawdd y Cenhedloedd Unedig gyda'r nod o "lwyr ddileu defnydd ynni niwclear at ddibenion dinistriol". Methu a wnaeth yr ymgais hon, ac eraill yn ei sgil, wrth i'r Undeb Sofietaidd 1949), ac wedyn Prydain (1952), Ffrainc (1960) a Tseina (1962) yn eu tro ddatblygu arfau niwclear.

'Roedd perygl arfau niwclear yn hysbys i bawb, serch hynny – y prif amcan oedd rhwystro gwladwriaethau megis yr Almaen a Siapan rhag datblygu'r bom. Ym 1961 derbyniodd Cynulliad Cyffredinol y CUoedd gynnig Gwyddelig ar y testun yn unfrydol, ac ar sylfaen y penderfyniad hwn yr adeiladwyd y CRhY.

Arwyddwyd y Cyfamod ym mis Gorffennaf 1968 gan yr UDau, Prydain a'r Undeb Sofietaidd fel gwladwriaethau ag arfau niwclear (GAN), a 59 o wladwriaethau eraill heb arfau niwclear (GHAN). Fe ddaeth i rym ar Fawrth 5, 1970 yn sgil cyflwyniad cadarnhad yr UDau. Heddiw, a chanddo 170 o arwyddwyr, hwn yw'r cyfamod rheoli arfau mwyaf ei gwmpas yn y byd.

## Yr hyn a ddywed y Cyfamod

Mae Isadrannau I a II yn rhwymo'r GANau a'r GHANau a arwyddodd y Cyfamod i beidio â throsglwyddo neu dderbyn arfau niwclear neu ffrwydryddion niwclear, neu gynorthwyo yn eu gwneuthuriad.

Gorfoda Isadran III bob GHAN i dderbyn cyfyngiadau diogelwch yr Asiantaeth Ynni Niwclear Ryngwladol (AYNR) ar eu cynlluniau ynni niwclear heddychlon.

Cydnebydd Isadran IV "hawl annieithr" pob arwyddwr i ddatblygu a defnyddio ynni niwclear heddychlon "yn rhydd o anffafriaeth".

Mae Isadran V yn caniatáu i'r GHANau ymwelwa o les "ffrwydradau niwclear heddychlon" (!)

Erfyna Isadran VI ar y GANau i "ymdrechu'n ddiffuant er cynnal trafodaethau" yn arwain at roi terfyn cynnar ar y ras arfau niwclear ac at ddiarfogi niwclear.

## Namau'r Cyfamod

Er bod y CRhY wedi llwyddo i raddau i gyfyngu ar gyflymder ymlediad arfau niwclear, mae ynddo nifer o namau difrifol

- Hyrwydda'r Cyfamod ymlediad y dechnoleg niwclear tra'n proffesu ar yr un pryd ei fod am atal y dechnoleg honno rhag cael ei defnyddio at ddibenion milwrol.
- Mae'r Cyfamod yn anffafriaethol, gan ei fod yn caniatau i'r GANau gynhyrchu deunydd ymholltus heb archwiliad, tra'n gorfodi'r GHANau i gadw eu holl safleoedd niwclear yn agored i "fesurau diogelwch cyflawn".
- Mae'r gyfundrefn diogelwch yn annigonol, gan ei bod yn gyfrifol am oruchwylio tua 900 o safleoedd mewn mwy na 60 o wledydd. Mae cyllid yr AYNR heb gynyddu ers blynyddoedd maith, ac yn aml metha â chadw at ei hamserlen archwilio.
- Nid yw'r Cyfamod yn diffinio arf niwclear, ac nid oes dull sefydlog o benderfynu a yw arwyddwyr yn ymchwilio, yn cynllunio, yn datblygu, yn cynhyrchu neu hyd yn oed yn arbrofi darnau cydrannol ar gyfer arfau niwclear.
- Heblaw hyn, caniateir i wladwriaethau gronni deunydd a allai gael ei ddefnyddio mewn arfau, megis plwtoniwm. Fe allai unrhyw wlad gynhyrchu'r darnau cydrannol, tynnu allan o'r Cyfamod gan roi tri mis o rybudd, a mynd ati'n syth wedyn i gydosod arfau niwclear – yn hollol gyfreithlon.
- Er bod y 5 GAN gydnabyddedig wedi arwyddo'r Cyfamod bellach (ymunodd Ffrainc a Tseina o'r diwedd ym 1992), fe erys sawl gwlad a gallu niwclear sylweddol y tu allan iddo. Y ffaith fwyaf trawiadol yw bod y 3 phŵer niwclear de facto – Israel, India a Phakistan – heb ei arwyddo.
- Dylid nodi yn ogystal fod nifer o GHANau'n uchel eu cloch wrth gefnogi Isadran VI a'u "hawl annieithr" i ddatblygu ynni niwclear, er bod y fath gynlluniau ynni yn aml yn anaddas ar gyfer gwledydd annatblegedig.


Er gwaethaf y namau hyn, nid oes amheuaeth na fyddai'r sefyllfa ynghylch ymlediad arfau niwclear yn dirywio'n ddwys pe bai'r Cyfamod yn chwalu yng nghynhadledd mis Ebrill.

## Anghydfod

Prif asgwrn y gynnen rhwng y GANau a'r GHANau yw'r argyhoeddiad ymhlith y gwledydd heb arfau niwclear, ac yn enwedig y rhai yn y byd annatblygedig, nad yw'r GANau wedi cyflawni eu rhwymedigaethau o dan Isadran VI, i roi terfyn ar y ras arfau a dileu 'arfau niwclear. Mae'n wir bod yr UDau a Rwsia wedi diweddu trafodaethau pwysig ar ddiarfogi niwclear yn ddiweddar, ond mae Tseina, Prydain (gyda Trident), a Ffrainc hwythau wrthi'n cynyddu eu harfogaeth niwclear, ac nid yw'r gwladwriaethau hyn erioed wedi negodi ynghylch diarfogi niwclear. Mae'r GHANau'n galw felly am brawf mwy argyhoeddiadol fod y GANau o ddifrif ynglŷn â diarfogi niwclear, sef Cyfamod i Lwyr Wahardd Arbrofion Niwclear (CLWAN), a gwaharddiad ar gynhyrchu deunyddiau ymholltus at ddibenion milwrol. Mae'r gwledydd Arabaidd hwythau, dan arweiniad yr Aifft, yn erfyn ar yr UDau i bwyso ar Israel i arwyddo'r CRhY.

## Adarchwiliad 1995

Yng nghynhadledd mis Ebrill bydd y GANau, gan gynnwys Prydain, yn ymgyrchu dros adnewyddu'r Cyfamod am gyfnod amhenodol: effaith hyn fyddai parhau'r statws quo niwclear. Cefnogir y safiad hyn gan yr Undeb Ewropeaidd a Siapan. Mae'r rhan fwyaf o'r GHANau yn y byd annatblygedig, ar y llaw arall, am weld adnewyddiad am gyfnod penodol cyfyngedig: eu gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu'r pwysau ar y GANau i symud ymlaen at ddiarfogi. Ar hyn o bryd mae gan bob ochr 60-65 o gefnogwyr, ac mae gweddill y byd heb benderfynu. Er y gellid dod at benderfyniad ar sail



## Angen Cymorth yn Eisteddfod yr Urdd

**Cynhelir Eisteddfod yr Urdd ym Mro'r Preseli eleni, rhwng 29ain Mai a 3ydd Mehefin. Bydd gan CND Cymru ei stondin arferol yno, i ymgyrchu ac i godi arian trwy Fasnach CND Cymru. Po fwyaf o helpwyr fydd gyda ni, mwyaf llwyddiannus y byddwn yn cyhoeddi'r neges! Os gellwch chi roi help llaw am hanner diwrnod (neu fwy), cysylltwch â Jan Henderson (01792)830330. Mae Jan a Brian yn chwilio hefyd am rywle i aros am yr wythnos o fewn 10 milltir o'r Maes. Byddai safle i wersylla'n braf, byddai lle ar lawr tŷ rhywun yn wych, ond byddai gwelyau y tu hwnt i'w breuddwydion.**

- *Os ydych yn byw yn yr ardal ac yn gallu cynnig llety, galwch Jan neu Brian (0792) 830330.*

## Y Blaid Lafur a'r Bom

Ym mis Ionawr sgrifennodd CND Cymru a Peter Hain AS at Ysgrifenyddion y Blaid Lafur ym mhob etholaeth seneddol i'w hannog i gefnogi CND yn ein gwaith dros fyd di-niwclear. Mawr obeithiwn y bydd y Blaid Lafur yn galw am adnewyddiad cyfyngedig i'r Cyfamod Er Rhwystro Ymlediad Arfau Niwclear, oherwydd mai hwyhau'r sefyllfa anfoddhaol bresennol fyddai unig effaith adnewyddiad amhenodol.

Ein gobaith yw y gwnant fynegi eu cefnogaeth i CND i Robin Cook, Cyd-Drefnydd Fforwm Polisi'r Blaid Lafur.

Mae Cynghrair Gwrth-Niwclear Cymru wedi cysylltu â'r un Ysgrifenyddion i geisio sicrhau y bydd Llafur yn cadarnhau ei safiad gwrth-niwclear.

**GWEITHREDU:**

*Os ydych chi'n aelod o'r Blaid Lafur, gwnewch yn siwr bod llythyr CND Cymru wedi derbyn sylw yn eich etholaeth chi.*

*Continued from page 3 ...*

mwyafrif syml, y tueddiad yw ystyried y Cyfamod yn gytundeb consenswS, ac mae cefnogaeth gyffredinol i'r ddogfen derfynol yn beth i'w chwennych.

## Safbwynt CND Cymru

Cred CND Cymru y dylid adnewyddu'r CRhY am gyfnod cyfyngedig yn unig (10 mlynedd ar y mwyaf), tra bod cyfamod newydd ar ddiarfogi niwclear llwyr a chyffredinol yn cael ei negodi. Yn y cyfamser dylid cadarnhau'r tueddiad yn erbyn ymlediad trwy:-

- Negodi CLWAN cyn gynted â fo'n bosibl.
- Cryfhau'r mesurau diogelwch a'u hestyn i bob safle niwclear ym mhob gwlad.
- Rhoi terfyn ar gynhyrchu deunyddiau ymholltus, yn y meysydd dinesig a milwrol ill dau.
- Sefydlu stocrestr fyd-eang a storfa ryngwladol ar gyfer deunyddiau ymholltus.
- Rhoi terfyn ar gefnogaeth yr AYNR i ymlediad y dechnoleg niwclear.

## Beth gallaf innau ei wneud?

*Amgaeir yn y rhifyn hwn o Heddwch gopi o Ddeiseb CND Dros Fyd Di-Niwclear. Casglwch gynifer o lofnodion ag y gellwch a'i dychwelyd i CND erbyn Ebrill 7.*

## Gŵyl Glastonbury 1995

Ie wir, mae'n bryd dechrau meddwl unwaith eto am Ŵyl Glastonbury lle, mewn gwersyll gymaint â dinas Bangor, trefnir gwledd adloniant i gynorthwyo Oxfam, Greenpeace a nifer o "achosion da" eraill, gan gynnwys y mudiad heddwch yma yng Nghymru. Bydd gwirfoddolwyr CND Cymru'n helpu i ofalu am y gwarchodfeydd sy'n galluogi pobl i fwynhau'r Ŵyl heb bryderu am eu heiddo. Mae'r gwaith yn galed ond yn bleserus, fe gaiff y gwirfoddolwyr bris eu tocyn yn ôl (mae tocynnau'n debyg o gostio dros £60 eleni), a daw rhodd sylweddol i CND Cymru yn ogystal! Cynhelir yr Ŵyl eleni ar benwythnos 23-24-25 Mehefin, ond rhaid ichi fod ar gael hefyd i weithio am ran o'r wythnos flaenorol.

- *Os liciech chi fwynhau'r Ŵyl a'i helpu i lwyddo ar yr un pryd, ysgrifennwch at: Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN.*

**CYSWLLT** CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH,
56 MACKINTOSH PLACE, ROATH,

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 OLR (015505) 260
**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda:**

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Ian Campbell** (01970) 871360
**Rod Stallard** (015505) 260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

ADDYSG HEDDWCH
**Mary Jones** (01792) 774687

AELODAETH
**Carol Handcock** (01633) 881741

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TREASURER
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close,
Y Porth, Rhondda CF39 9DF

## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (05505) 260
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01222 222782) am fanylion
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

______________________________

______________________________ Côd Post __________

Ffôn ______________________ Amgaeaf siec/GP am ______

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Aelodaeth, 3 Millbrook Court, Magwyr, Gwent NP6 3JN.

# YMGYRCHOEDD: Y DIWEDDARAF

## Trident – beth yn y byd maen nhw'n ei wneud?

Aeth HMS Vanguard, y llong danfor Trident gyntaf, yn "weithredol" ym mis Tachwedd, gan daro cnec yn wyneb pawb. Rydym yn byw bellach mewn gwlad a chanddi sustem arfau niwclear Trident, ond pob diolch i CND, Gwersyll Heddwch Faslane, Sea Action a Greenpeace am wneud eu gorau glas (a gwyrdd) i'w rhwystro. Adroddodd "The Independent" mai dim ond cyfesurynnau'r targedi -cyfresi o rifolion – a fyddai gan y criw, ac ni fyddant yn bwydo'r rhain i mewn i sustem danio'r taflegrau, fel na bydd y morgadlywydd ei hun hyd yn oed yn gwybod at bwy y mae'n saethu. Dyna beth yw lladdedigaeth ddall: dim perygl y daw wynebau'r rhai a rostiwyd ganddoch chi i aflonyddu'ch breuddwydion wedyn. Mae gan Vanguard 16 o daflegrau niwclear, a phob un ohonynt cymaint ei nerth dinistriol â 62 o fomiau Hiroshima.

**GWEITHREDU:**

- *Copiwch y ddeiseb amgaeëdig, a chasglu gymaint o lofnodion ag y gellwch a'i dychwelyd. Mae arnom angen o leiaf 100,000 o lofnodion o wledydd Prydain.*
- *Ysfrifennwch at Christopher Ward, clerc Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Tramor, Committee Office, House of Commons, London SW1A 0AA.*

*Nodwch yn eich llythyr fod Trident yn ddatblygiad pryfoclyd sydd yn llwyr danseilio ymrwymiad Prydain i ddiarfogi o dan Isadran VI y Cyfamod cyfredol Er Rhwystro Ymlediad Arfau Niwclear, a'i fod yn rhoi esgus perffaith i'r gwladwriaethau "trothwy" hynny sydd am ddwysau eu prosiectau datblygu arfau niwclear. Mynnwch fod y Clerc yn mynegi'ch safbwynt i aelodau'r Pwyllgor.*

Llongyfarchiadau i'r rhai ohonoch a sgrifennodd lythyron ardderchog i'r wasg leol!

## Sizewell B PWR

Fe gomisiynwyd Atomfa Sizewell B yn Suffolk ar 31ain Ionawr. Saif yn fygwth difrifol i'n plant, i blant ein plant ac i'r amgylchedd. Aeth y comisiynu yn ei flaen er bod namau anhysbys o hyd ym meddaiwedd y cyfrifiadur, na ellir eu huniaethu hyd nes y daw rhyw argyfwng. Mae Sizewell A'n gyfrifol am 20,000 o dunnelli o wastraff niwclear. O 31ain Ionawr ymlaen mae gan Suffolk 40,000 o dunnelli o wastraff bythol ymbelydrol. Nod Nuclear Electric yw dyblu hyn drwy adeiladu PWR (atomfa ddŵr dan bwysedd) dwbl arall – Sizewell C – drws nesaf, ond mae'r cyngor lleol wedi sefydlu consortiwm i wrthwynebu'r cynllun.

**GWEITHREDU:**

*Ysgrifennwch at y bobl ganlynol i ofyn iddynt paham y comisiynwyd Sizewell B er y gwyddys fod yna namau yn y sustem gyfrifiaduron, ac er na ŵyr neb beth y gellir ei wneud â'r holl wastraff ymbelydrol:*

- *1. John Major, 10 Downing Street, London SW1A 2AA*
- *2. Robert Hawley, Chief Executive, Nuclear Electric, Barnett Way, Barnwood, Gloucester GL4 7RS*
- *3. DDBH Munns, Anglian Mngr, HMIP, Howard Hse, 40-64 St John's St, Bedford MK42 0DL*
- *4. John Gummer, Gweinidog yr Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd, 43 Marsham St, London SW1P 3PY*
- *5. Michael Heseltine, Llywydd yr Adran Masnach a Diwydiant, Palace St, London SW1E 5HE*




■ *1985 ...*


## LLANISHEN

Datganwyd ar 20ain Ionawr y bydd Ffatri Arfau Niwclear Llanishen yng Nghaerdydd, lle y cynhyrchir casinau ar gyfer taflegrau Trident, yn cau ym 1997. Gofynnodd Rhodri Morgan AS gwestiynau am y caead a'r broses ddatgomisiynu yn Senedd San Steffan ar 31ain Ionawr. Yn ôl yr ateb a gafodd gan Roger Freeman AS, ymddengys mai dim ond y deunyddiau ar y safle, ac nid y safle ei hun, a ystyrir yn llygredig gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

**GWEITHREDU:**

*Gofynnwch – yn enwedig os ydych yn byw yng Nghaerdydd – i'ch cynghorydd/AS/ASE am ddiogelwch y safle. Mae wedi ei lygru gan wraniwm hysbyddedig, beryliwm a chemegau gwenwynig eraill, a olyga etifeddiaeth angheuol i Gaerdydd. Galwch Jill Stallard am ragor o fanylion.*

■ *... 1995*



# YMGYRCHOEDD: Y DIWEDDARAF

## THORP

A ninnau'n mynd i'r wasg, mae THORP yn dal heb ddechrau gweithio! Pan aeth Greenpeace ag achos i'r Uchel Lys y llynedd, mynnodd BNFL y byddai pob diwrnod segur yn THORP yn costio £2 filiwn iddynt. Mae'r bil yn mynd yn fwy ac yn fwy! Ac mae dwy atomfa yn yr Almaen wedi penderfynu peidio ag adnewyddu eu contractau 10 mlynedd gyda THORP.

**GWEITHREDU:**

*Nid yw'n rhy hwyr i gau THORP. Dywedwch hyn wrth eich AS a/neu Michael Heseltine, Llywydd y Bwrdd Masnach (cyfeiriad isod), gan bwysleisio pa mor beryglus yw cludo deunyddiau niwclear, y bygwth i bob creadur byw a olyga prosesu'r deunyddiau hyn, a'r modd y bygythir heddwch a'r nod o atal ymlediad arfau niwclear wrth gynyddu maint y plwtoniwm sydd yn y byd. Heb son am y ffaith fod THORP yn ffordd gostus tu hwnt o greu swyddi.*

## Bomiau niwclear ym Mhenbre?

Cyhoeddodd y papur Wales on Sunday ddatganiad gan Heather Sidrak, merch i Harry Southall a fu'n gweithio yn Ffatri Arfau Frenhinol (ROF) Llanelli, yn honni iddo gyffesu iddi ar ei wely angau bod dau fom niwclear wedi eu claddu mewn "arch" goncrit o dan dwyni Penbre, Dyfed. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwadu iddi waredu'r un bom niwclear o gwbl. Creda rhai pobl leol mai Penbre oedd y cyswllt Cymreig â Phrosiect Manhattan, a arweiniodd at ffrwydro'r bom niwclear cyntaf ym 1945. Diolch i ail-dirlunio, mae prydferthwch naturiol "Parc Gwledig Penbre" – ar safle'r hen ffatri arfau – yn atynfa bellach i gannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn.

## Arbrofi niwclear

Mae'n debyg y bydd Tseina'n cynnal dau arbrawf niwclear arall eleni, yn gynnar ac yn hwyr yn y flwyddyn er mwyn osgoi hannercanmlwyddiant Hiroshima. Dywedodd Prif Weinidog Ffrainc efallai y bydd ar ei wlad angen (sic) ail-ddechrau arbrofi. Ar gyfartaledd, cynhaliwyd un arbrawf niwclear yr wythnos oddi ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Dywedir fod yr Unol Daleithiau yn awyddus i gyfamod newydd er gwahardd arbrofion niwclear gael ei arwyddo erbyn mis Medi.

Mae brodorion Awstralia wedi derbyn iawndal o £6 miliwn am gael eu halltudio o'u mamdiroedd gan yr arbrofwyr niwclear yn y 50au. Daw hyn ar ben y £50 miliwn a dalwyd iddynt gan y Prydeinwyr ym 1993, a £50 miliwn arall ar gyfer y prosiect datlygru tiroedd. Ond beth a wneir â'r holl dywod a phridd ymbelydrol? Er gwaethaf popeth, bydd rhai ardaloedd ym Maralinga yn rhy beryglus i'w defnyddio am byth.

## Llwyddiant yn Llys y Byd

Ym mis Rhagfyr pleidleisiodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig o 78 pleidlais i 43 (38 yn ymatal) dros ofyn i'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol "fynegi ei farn ymgynghorol" ar y cwestiwn canlynol:

"A dderbynir defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear mewn unrhyw amgylchiad o dan ddeddfau rhyngwladol?"

Am y tro cyntaf, bydd rhaid i'r gwladwriaethau sydd ag arfau niwclear argyhoeddi'r 15 aelod o Lys y Byd mewn gwrandawiadau cyhoeddus fod ataliad niwclear yn cymryd blaenoriaeth dros y gyfraith – tra'n pledio fod meddu ar arfau niwclear yn anghyfreithlon i bawb ac eithrio hwythau eu hunain.

Pe bai Llys y Byd yn dedfrydu bod defnyddio a bygwth defnyddio arfau niwclear yn anghyfreithlon, byddai'r goblygiadau'n allweddol. Byddai'r gwledydd ag arfau niwclear yn gorfod ail-asesu sylfeini eu polisiau amddiffyn a sefyllfa gyfreithiol eu lluoedd arfog.

**GWEITHREDU:**

- *1. Daliwch i gasglu Datganiadau'r World Court Project, a mynnwch ragor oddi wrth WCP, 67 Summerheath Road, Hailsham, Sussex BN27 3DR.*
- *2. Rhowch wybod i'ch AS am ganlyniad y pleidlais, a mynnwch ei b/fod yn cytuno y dylai Prydain gadw at yr hyn a benderfyno Llys y Byd.*
- *3. Rhowch gyhoeddusrwydd i'r fuddugoliaeth yn eich gwasg leol.*

## Gwastraff ymbelydrol yn y môr – hanner oes ar y don

Amcangyfrifa NIREX y bydd tua 1.5 biliwn o fetrau ciwbig o wastraff isel neu gymhedrol ei ymbelydredd wedi eu cronni ym Mhrydain erbyn y flwyddyn 2030. Ac mae'r llywodraeth wedi penderfynu mai da o beth fyddai cael gwared o wastraff niwclear "isel ei ymbelydredd" ar safleoedd llenwi tir y cynghorau lleol. Hyd yn hyn, dim ond un safle o'r math (Chwarel y Cilgwyn ger Caernarfon) a enwyd fel gwaredfa ar gyfer gwastraff niwclear. Ond erbyn hyn mae Whitehall wedi dod i'r casgliad y gwna unrhyw safle llenwi tir ym meddiant awdurdod lleol y tro. Y newyddion drwg yw bod cynlluniau ar y gweill i ddatreoli safleoedd llenwi tir, newid y diffiniad o beth yw wastraff "isel ei ymbelydredd", a'i gwneud yn amhosibl i gynghorau lleol wrthwynebu gollwng gwastraff ymbelydrol.

Daethpwyd o hyd i wraniwm hysbyddedig ar waredfa sbwriel o'r math yn Northants ym mis Ionawr. Roedd plant o wersyll filwrol yr Unol Daleithiau gerllaw yn defnyddio'r lle fel "parc antur". Ymddengys o'r archwiliad fod gan y gwastraff ryw gysylltiad â "Hynting", y cwmni sy'n gyfrifol am weinyddu AWEau Llanishen ac Aldermaston. HMIP sy'n talu am ddatlygru'r safle oherwydd, meddant, "fe allai'r gwastraff achosi problemau anadlu".

**GWEITHREDU:**

*Cynghorwyr Dosbarth sy'n gyfrifol am safleoedd llenwi tir. Gwnewch nhw'n ymwybodol o'r cynlluniau newydd hyn i lygru amylchedd eu hardaloedd. Fe all CND Cymru ddarparu cysylltiadau a rhagor o fanylion. Mae gan Greenpeace, WANA a Fforwm yr Ardaloedd Di-Niwclear hwythau wybodaeth am hyn.*

## Gwastraff ymbelydrol yn y mor – hanner oed ar y don

Fe fydd llond 30 llong o wastraff uchel ei ymbelydredd yn cael ei gludo rhwng Cherbourg a Rokkasho-Mura yn Siapan dros y 10-15 mlynedd nesaf. Y bwriad yw ei storio "hyd nes y bo modd i'w waredu'n barhaol wedi ei drefnu" (am fformwla braf i'n cysuro).

Mae llawer ardal wedi mynegi ei gwrthwynebiad, gan gynnwus y Caribî, Ynysoedd Pilipinas a Micronesia, ac mae gwleidyddion Siersei a Gwernsei'n pryderu'n arw. Cefnogir cynrychiolwyr yr Ynysoedd Eingl-Normanaidd gan ASEau a charfan o grwpiau ecolegol a gwrth-niwclear sydd wedi gofyn i Neil Kinnock, Comisiynydd Cludiant yr UE, i fanteisio ar Reolau'r Gymuned ynghylch symud gwastraff niwclear dros ffiniau er mwyn atal y symudiadau hyn.

Dengys gwaith ymchwil a wnaeth academydd o'r Unol Daleithiau dros Greenpeace fod nam yn nyluniad y cynhwyswyr metel lle y cadwir gwastraff a'r seliau sydd arnynt.

Amcangyfrifir y bydd pob llond llong o'r gwastraff hwn yn cynnwys llawer gwaith y maint o gesiwm a gwenwynau ymbelydrol hiroes a ollyngwyd o Tsiernobyl.

**GWEITHREDU:**

*Ysgrifennwch at eich ASE, ac at y Comisiynydd Neil Kinnock, Comisiwn Ewrop, Rue de la Loire 200, 1049 Bruxelles, Gwlad Felg.*

# YMGYRCHOEDD: Y DIWEDDARAF

## Tsietsnia

Mewn datganiad i'r wasg a gyhoeddodd CND Cymru ar 24ain Rhagfyr 1994, dywedodd ein Cadeirydd David Morris ASE:

"Os gall llywodraeth Rwsia fforddio gwario arian ac adnoddau ar arfau a byddinoedd i oresgyn a sathru dyhead diffuant am ryddid, mae'n amlwg fod yna ddigon o adnoddau i fodloni anghenion y bobl. Ni ddylem adael i drethdalwyr Prydain ac Ewrop gynnal y rhyfel hwn â'u cymhorthdal."

Nodwyd hefyd mai pobl anarfog a rwystrodd y tanciau ar y dechrau gan ddefnyddio dulliau di-drais. Cefnogwn yr unigolion hynny ymhlith milwyr Rwsia a wrthododd gymryd rhan mewn gweithredoedd ymosodol.

**GWEITHREDU:**


*Mae'r Biwro Heddwch Rhyngwladol wedi gofyn inni annog llywodraeth Prydain i bwyso ar awdurdodau Rwsia i ganiatau heb oedi i sylwedyddion rhyngwladol a sefydliadau dyngarol fynd i mewn i Tsietsnia; i dynnu eu milwyr a'u hawyrennau o'r ardal, ac i ddechrau negodi heb ragamodau ag arweinwyr y Tsietseniaid. Ysgrifennwch at Douglas Hurd yn y Swyddfa Dramor, London SW1, i fynegi'ch teimladau.*

## Hanford East Washington, UDA – Safle Niwclear

Cyfaddefodd llywodraeth yr Unol Daleithiau wyth mlynedd yn ôl bod Hanford wedi gollwng maint sylweddol o ymbelydredd i'r amgylchedd lleol. Ond gwrthodant gyfaddef mai'r ymbelydredd hwn sy'n gyfrifol am y nifer annormal uchel o glefydau genetig, marw-enedigaethau, canserau, lewcemia a phroblemau theiroid a geir ymhlith trigolion yr ardal yng nghysgod y safle. Mae llawer o'r dioddefwyr erbyn hyn rhwng 35 a 45 mlwydd oed. Maen nhw a'u teuluoedd wedi sefydlu grwp ymgyrchu o'r enw "Hanford Downwinders' Coalition" i orfodi'r llywodraeth i gymryd cyfrifoldeb am ei chamweddau. Dywed Dr Richard Belsey, Athro Patholeg ym Mhrifysgol Gwyddorion Iechyd Oregon: "Mae'n bosibl ein bod yn difrifol tanasesu effaith arbelydrad lefel isel, yr ardrawiad ar y sustem imwnaidd, a'r baich genetig, patholegol dros y tymor hir."

**GWEITHREDU:**

*Mae amledd canserau'n uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Dichon mai'r glawiad helaethach, a ddosbartha fwy o ymbelydredd (gan gynnwys Strontiwm 90) dros y tir, sy'n cyfrif am hyn, Darllenwch ''The Sandman – Official Attitudes to Evidence of the Health Effects of Low Level Radiation in the Environment'', sef adroddiad Ymgyrch Ymbelydredd Isel y Blaid Werdd £1.00). Am fwy o wybodaeth galwch Richard Bramhall (01982) 552502.*



■ *Agoriad Sizewell B ...*



# PILI PALA

Bu raid i long danfor Trident ddychwelyd i'w ffau "am ei bod yn bwrw glaw" – am esgus "gwlyb"!

Mae llyfr newydd "Radioactivity – a Cumbrian Tale in Five Emissions" gan John Murray ar gael gan Skunk Islands Press, PO Box 74, Lincoln LN1 1QG (£7.99). Yn ôl Dave o'r rhwydwaith gwrth-niwclear, mae'n wir werth ei brynu. Gosodir y stori flwyddyn ar ôl trychineb Tsiernobyl mewn tafarn nid nepell o Sellafield, lle y cynhelir y Gynhadledd Flynyddol byd-enwog i ddewis Celwyddgi Mwya'r Byd.

— • —

Yn ystod gwrthdystiad Dros Gau Sellafield ym mis Tachwedd, cafodd 12 protestiwr a oedd wedi llithro trwy fwlch yn y ffens eu dal a'u hyrddio i swyddfa'r heddlu. Ni chawsant mo'u harestio, ond fe'u rhybuddiwyd gan blismon dig, a waeddodd: "Na wyddoch chi fod Sellafield yn BERYGLUS!" Atebon nhw'n gwrtais mai dyna'n union pam yr oedden nhw yno. Mai BNFL yn anfodlon mynd â phrotestwyr i'r gyfraith – er mwyn cadw gweithgareddau'r cwmni'n ddirgel ac osgoi cyhoeddusrwydd.

Clywyd yr Arglwydd Wakenham – a agorodd Sizewell ar 31 Ionawr – yn dweud ar y teledu fod yr atomfa'n "weddol ddiogel". Nid hollol ddiogel, sylwer, eithr "diogel – i raddau". Gyda llaw, fe ddioddefodd Sellafield ei hunan eiliadau prin ar ôl i'r Arglwydd ei throi ymlaen.

— • —

Cynllunio ar gyfer y Pasg? Mai yna Wersylloedd Heddwch menywod yn Menwith Hill, Aldermaston a Burghfield. Bydd croeso cynnes i bawb bob amser yng Ngwersyll Heddwch gymysg Faslane. Manylion gan CND Cymru.

— • —

Yn ôl yr adroddiad a gyflwynodd y Comisiwn ar Iechyd a Diogelwch i'r Adarchwiliad ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol, "byddai adolygiad o'r categorïau gwastraff yn lleihau'r angen am storio gwastraff mewn gorsafoedd pŵer, ac o ganlyniad yn lleihau'r perygl i'r gweithwyr"!

— • —

I brofi pa mor hawdd y gellid gosod ffrwydryddion magnetig ar long BNFL, llithrodd aelodau o CORE (Cumbrians Opposed to a Radioactive Environment) heibio i warchodwyr Doc Ramsden, Barrow-in-Furness ryw nos Sul ym mis Chwefror, a phlymio i'r dŵr, lle y llwyddasant osod magnetau diwediannol ar hwl llong sy'n cludo deunydd ymbelydrol. Digwyddodd hyn ar ôl i'r cwmni ddatgan: "Bydd holl longau BNFL yn cael archwiliad diogelwch cyn iddynt hwylio." Cymerodd plymwyr tanddwr BNFL ddeuddydd i ddod o hyd i'r magnetau.

— • —

Am y tro cyntaf ers blynyddoedd maith nid yw BNFL yn hysbysebu eu parc antur andwyol/Disneyland distrywgar (canolfan ymwelwyr) yn llyfryn gwanwyn Bwrdd Croeso Ardal y Llynnoedd. Mae'r lle ar gau... ond peidiwch â dathlu. Fe ddenodd y ganolfan filiwn o ymwelwyr y llynedd (ffoaduriaid gwenias o law ymbelydrol Cumbria). Ond erbyn hyn mae arni angen garw gweddnewidiad a fydd yn costio £7 miliwn. Tybed a glywid rhyw lais bach rywle'n grwgnach am "codiadau cyflog yn y sector cyhoeddus, toeau ysgolion yn gollwng dŵr, adrannau brys ysbytai Cymru..."?

Seilir yr arddangoslenni newydd ar y syniad fod y gymhlethfa niwclear yn debyg i "iâr fwyn yn gofalu am ei hatomau bach blin a chrintachlyd. Mae hi ychydig yn debyg hefyd i gi defaid yn sicrhau na fydd yr un ddafad yn cyfeiliorni".

Cymherir THORP i fferm iechyd "lle y gall atomau ymlacio cyn cael eu gyrru yn ôl i'r gwaith gyda chymorth y pwll twym, Decanner a Nitrick". Gwahenir yr atomau drwg gan "Vic yr Anweledig a'i chot o wydr du. Mewn chwinciad caiff yr atomau eu carcharu, a ni chânt achosi trafferth byth eto (sic)". Os mai "ffermio" yw hyn, fe haedda wobr am faint ei gymhorthdal. Pwsi Meri Mew yn cwrdd â "Mistar Pliwto" o Siapan...

— • —

**LLYFRAU NEWYDD: Unlawful Killing: The Murder of Hilda Murrell**
*gan Judith Cook, Bloomsbury, £16.99*

Llofruddiwyd Hilda Murrell ddeng mlynedd yn ôl. Bydd unrhywun a fu'n weithgar gyda CND ar yr adeg yn cofio cymaint â hyn o'r stori. Daethpwyd o hyd i gorff hanner-noeth y dyfwraig rosynnau 79 oed, ac arno anafiadau arwynebol, mewn prysglwyn 6 milltir o'r Amwythig. Roedd yr ymgyrchwraig wrth-niwclear frwd hon ar fin cyflwyno tystiolaeth i ymholiad cyhoeddus Sizewell. Swyddog cyfrinwybodaeth oedd ei nai, y Morgadlywydd Robert Green, yn ystod rhyfel Ynysoedd Malo Sant (Malvinas/Falkland), a chwaraeodd ran ganolog pan soddwyd y Belgrano, llong ryfel Archentaidd, wrth iddi hwylio i ffwrdd o gadlynges Prydain. Ni chyhuddwyd neb erioed o lofruddio Hilda Murrell; mynnodd yr heddlu mai lladrad a aeth o'i le a arweiniodd at ei marwolaeth, tra bod mwy nag un wedi pwyntio bys at y gwasanaethau diogelwch.

Cofiaf imi ddarllen adroddiadau yn y papurau ar yr adeg, a llyfr hyd yn oed a sgrifenwyd flwyddyn neu ddwy yn ddiweddarach, ond mae traul amser wedi pylu'r cofion erbyn hyn. Mae'n dda gen i weld, serch hynny, bod nifer o unigolion wedi ymroi dros y blynyddoedd i ddatrys y gyfrinach, a champ y llyfr hwn yw ei fod wedi casglu'r hyn a ddarganfuwyd ganddynt mewn ffurf ddarllenadwy iawn. Yn wahanol i "ymchwiliad" dof John Stalker a ymddangosodd ar y teledu, mae'r llyfr hwn yn ffrwyth gwaith newyddiadurol go iawn, a daw'r awdures yn agos iawn at enwi'r llofruddion. Rhoddir yr argraff mai dim ond ofn cael ei herlyn a'i rhwystrodd rhag cyhoeddi eu henwau. Rwyf am annog pawb i ddarllen y llyfr hwn: mae'r pris braidd yn uchel, ond fe allech chi ei archebu yn eich llyfrgell leol. Fe ddysgwch lawer, rwy'n siwr; dyma un o'r llyfrau hynny na fedrwch chi mo'u gadael i lawr tan y diwedd.

*Brian Jones, CND Cymru*

**LLYFRAU NEWYDD: Beyond The Famished Road. New Policies for Common Security**
*gan Alan Simpson AS*

Bydd aelodau CND yn awyddus i ddarllen y llyfryn ardderchog hwn, rwy'n siwr. Fe esyd ein gwaith dros ddiarfogi niwclear mewn fframwaith o weledigaethau newydd, blaengar a chyrraeddadwy ar gyfer ennill diogelwch cyffredin. Mae arnom angen y fath weledigaethau'n arw heddiw i lenwi'r bwlch a adawyd wrth i arweinwyr y Blaid Lafur wthio achos diarfogi o'r neilltu. Fe'm hysbrydolwyd gan lyfryn Alan Simpson, a lwyddodd ail-gynnau fy nghred y bydd yn bosibl cyflawni amcanion CND cyn diwedd fy oes, ac y gallwn ni fod yn rhan o fudiad llafur cryf a fydd yn creu polisi amddiffyn a thramor amgen i Brydain gan drawsnewid safleoedd milwrol a'u troi at ddibenion heddychlon, cynhyrchiol, ac yn cefnogi polisiau blaengar er lles pawb dros y byd. Ys dywed Tony Benn yn y rhagymadrodd, "Mae hyn i gyd yn synnwyr cyffredin o'r math mwyaf amlwg, ond mae Alan, wrth sillafu ei neges fesul gair fel hyn, wedi mynd ati llwrw ei ben i herio'r garfan rymusaf yn y byd, a chanddi gymhelliad hunanol dros gadw pethau'n union fel y maen nhw. Fe fydd y Sefydliad yn anwybyddu neu'n ymosod ar y syniadau a gynigir yma, ond rhai hynod synhwyrol ydyn nhw yn nhyb y rhan fwyaf o bobl."

*Anna-Zohra Tikly (CND Prydain)*

**Ar gael o Fasnach CND Cymru am £2.80 (yn cynnwys p&ph).**

# DYDDIADUR

**Mawrth 8** Gŵyl Ryngwladol y Menywod. Fel rhan o'u hastudiaeth ar "Menywod a Militariaeth", mae'r Cyngor Heddwch Cenedlaethol (CHC) yn annog menywod yng ngwledydd Prydain i anfon negesau ffacs a phost-e at fudiadau menywod ym mhob rhan o'r byd. Fe gyflwynir yr holl negesau yn ystod Cynhadledd Byd y Cenhedloedd Unedig Yn Beijing, mis Medi 1995. *Cewch y cysylltiadau mewn pecyn gwybodaeth sydd ar gael gan y CHC, Galwch (017) 354 5200 am fanylion.*

**Mawrth 11** Cyfarfod Blynyddol CND Llandrindod. Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Llandrindod, yn y prynhawn. Dangosir y fideo "Gwynt Du, Tir Gwyn" am Tsiernobyl. *Manylion gan Vera Jones (01597) 824367.*

**Mawrth 13** Hannercanmlwyddiant Pax Christi, y mudiad heddwch rhyngwladol Catholig. Penblwydd hapus, Pax Christi! *Mwy o wybodaeth gan: Canolfan Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam (01978) 356969.*

**Mawrth 25** 11.00 am: Cyfarfod Cynghrair Gwrth-Niwclear Cymru, Neuadd Sir De Morgannwg, Porthfa Iwerydd, Caerdydd. (Cyfarfod diddorol a phryfoclyd bob tro!) Croeso cynnes i bob ymgyrchwr. *Galwch Hugh Richards (01982) 570362.*

**Mawrth 31** 7.15 pm Cyfarfod Cyhoeddus Prosiect Plant Tsiernobyl yn Neuadd Sir De Morgannwg, Porthfa Iwerydd, Caerdydd. Dangosir y fideo Gwyddelig "Gwynt Du, Tir Gwyn – Etifeddiaeth Tsiernobyl", a bydd Côr Cochion Caerdydd yn canu. Croeso i bawb. *Manylion: Ray Davies (01222) 889514 neu Sue Lent (01222) 493980.*


**Mawrth/Ebrill Gwastraff** Ymbelydrol mewn Safleoedd sbwriel – cyfarfod ymgyrchu yn y Gogledd. *Galwch Hugh Richards (01982) 570362 am fwy o wybodaeth.*

**Ebrill 1** 11.00 am: Cyngor CND Cymru – Ein cyfarfod deufisol, Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Heol y Deml, Llandrindod. Croeso cynnes i bawb – dewch yn llu! *Galwch Jill Stallard am fwy o wybodaeth, neu os am rannu cludiant.*

**Ebrill 17-22** Cynhadledd er Rhwystro Ymlediad Arfau Niwclear, Efrog Newydd. Cysylltwch â'r International NPT Campaign, Greenpeace, Canonbury Villas, London N12 PN Ffon (071) 354.5100, neu Christian CND, St Mary's Church, Bramall, Sheffield SZ 4QZ (0114)273 9047. Mae gan y ddau sefydliad ddeunydd ardderchog y gallech ei ddefnyddio i sgrifennu at eich AS, y Prif Weinidog a/neu eich papur lleol. Mae'n angenrheidiol ein bod yn adeiladu dyfodol di-niwclear.

**Mehefin** Cyfarfod Blynyddol CND Cymru, Llandrindod. Cysylltwch â Jill Stallard am fanylion.

**Y Siop Heddwch**



**56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ. Ffon: 01222 489260**

**Gennym ni mae'r stoc fwyaf yng Nghymru o nwyddau o –Traidcraft, Amnesty Rhyngwladol, Gwrth-Apartheid, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear, CND, Earthcare, Unicef.**
**Mae gennym stoc helaeth o lyfrau a chylchgronau ynghyd â gemwaith o waith llaw a chrefftau ac, wrth gwrs, crysau-T a sticeri.**